# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth

## Mae ceisiadau ar gyfer ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn cau ar 5 Ebrill 2017

Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth Top Up

Eich Pensiwn. Eich Dyfodol.

Ar 12 Hydref 2015 cafodd cynllun ei gyflwyno i ganiatáu pensiynwyr i ychwanegiad at eu Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth (a elwir hefyd yn SERPS neu S2P, sy'n cael ei dalu gyda phensiwn sylfaenol). Gelwir y cynllun hwn yn ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth.

Mae ar gael i holl bensiynwyr sydd wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn cyflwyniad Pensiwn newydd y Wladwriaeth ar 6 Ebrill 2016. Bydd y cynllun yn agored tan 5 Ebrill 2017.

Bydd yr ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn rhoi'r dewis i bensiynwyr i roi hwb i'w pensiwn hyd at £25 yr wythnos, derbyniad mynegrif i'w diogelu rhag chwyddiant ac yn cynnig diogelwch i briod neu bartner sifil sy'n goroesi. Yn enwedig, gallai helpu rhai merched, a rhai pobl sydd wedi bod yn hunangyflogedig, sydd wedi tueddu cael hawliad Pensiwn y Wladwriaeth yn berthnasol i incwm isel yn y gorffennol.

**Cau cynllun**

Mae ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn gynllun â therfyn amser ac mae deddfwriaeth yn nodi bod y cynllun yn gweithredu rhwng 12 Hydref 2015 a 5 Ebrill 2017. Felly, ni all unrhyw geisiadau gael eu derbyn y tu allan i'r dyddiadau hyn.

**Wedi gwneud cais cyn 5 Ebrill 2017 ond heb eu talu eto.**

Os bydd CThEM yn derbyn cais am ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Mawrth 2017, bydd y taliad yn cael ei dderbyn cyn belled â'i fod yn cael ei dderbyn erbyn 5 Ebrill 2017. Ar gyfer unrhyw gais a wneir rhwng 6 Mawrth 2017 a 5 Ebrill 2017, mae'r cyfnod o 30 diwrnod lle y gellir gwneud taliad yn dechrau ar y diwrnod y mae CThEM yn anfon y pecyn talu allan

### Cymhwyster

Gallwch ddewis i ychwanegu at eich Pensiwn y Wladwriaeth hyd at £25 yr wythnos os ydych yn:

- ddyn wedi ei eni cyn 6 Ebrill 1951; neu'n
- ferch wedi ei geni cyn 6 Ebrill 1953; ac
- yn gymwys am Bensiwn y Wladwriaeth y DU.

Gallwch gael y pensiwn ychwanegol a elwir yn ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth, drwy dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3A gwirfoddol.

Y prif nodweddau o ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yw:

- hwb i'ch incwm ymddeol o hyd at £1,300 y flwyddyn am oes,
- derbyniad mynegrifol,
- gall incwm sydd, mewn y rhan fwyaf o achosion, gael ei etifeddu gan briod neu bartner sifil sy'n goroesi. Mae mwy o wybodaeth am reolau'r etifeddiaeth ar gyfer ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth nes ymlaen yn y ffeithlen hon.

## Sut mae'n gweithio?

Gallwch ddewis ychwanegu at eich Pensiwn y Wladwriaeth o rhwng £1 a £25 yr wythnos. Mae faint byddech angen ei gyfrannu'n dibynnu ar:

- faint o bensiwn ychwanegol rydych eisiau ei gael pob wythnos; a
- faint yw eich oed pan fyddwch yn gwneud y cyfraniad.

Bydd y cyfraniad rydych angen ei wneud yn dibynnu ar eich oedran, gyda chyfraddau'n mynd i lawr fel rydych yn mynd yn hŷn. Er enghraifft, i gael £1 ychwanegol yr wythnos (£52 y flwyddyn) o Bensiwn y Wladwriaeth am oes, byddai'r cyfraniad o gyfandaliad i rywun 65 oed yn £890, i gymharu â £674 i rywun sy'n 75.

Mae'r cyfraddau'n cael eu cynnwys yn y Ffeithlen hon.

Mae cyfrifiannell ar-lein sy'n dangos y cyfraniad  o gyfandaliad y byddwch chi angen ei dalu i gynyddu eich incwm pensiwn  o rhwng £1 a £25 yr wythnos.

Ymwelwch â www.gov.uk/state-pension-topup (neu chwilio ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth).

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Gwirfoddol Dosbarth 3

Efallai eich bod yn ymwybodol bod cyfraniadau Yswiriant Dosbarth 3 gwirfoddol presennol yn caniatáu pobl i lenwi bylchau yn eu cofnod i wella eu hawliad Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth. Os oes gennych ddiffyg yn eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, mae gwneud cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3 yn debygol o fod yn fwy o fudd nac ychwanegiad Pensiwn y Wladwriaeth. Os oes gennych ddiddordeb yn yr ychwanegiad dylech ystyried yn gyntaf cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3. Mae gennych y dewis o gyfrannu i Ddosbarth 3 ac ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth os ydych yn dymuno.

Cyn gwneud cyfraniadau Yswiriant Gwladol gwirfoddol dylech ystyried hefyd yr effaith ar unrhyw fudd-daliadau sy'n berthnasol i incwm rydych yn derbyn, fel Credyd Pensiwn.

Efallai byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol wrth gynllunio eich incwm ar ymddeoliad.

## Cyfnod Ail feddwl

Mae cyfnod o 90 diwrnod ail feddwl, fel y gallwch ofyn am ad daliad o'ch Pensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych yn marw o fewn 90 diwrnod o wneud y cyfraniad, bydd ad-daliad yn cael ei wneud i'ch ystad

## Etifeddiaeth

Gall eich ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth gael ei etifeddu gan eich priod neu bartner sifil sy'n goroesi yn unol â threfniadau ar gyfer etifeddu Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth o dan SERPS (Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth wedi ei adeiladu cyn mis Ebrill 2002). Mae hyn yn golygu mewn y rhan fwyaf o achosion y gall rhwng 50% a 100% gael ei etifeddu, yn dibynnu ar eich dyddiad geni.

Bydd yr ychwanegiad wedi ei etifeddu yn daladwy ar unwaith os yw eich priod neu

bartner sifil yn derbyn eu Pensiwn y Wladwriaeth eisoes pan maent yn weddw. Os ydynt o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth pan rydych yn marw ac mae ganddynt hawl i Lwfans Rhiant Gweddw bydd yn cael ei dalu fel rhan o'r budd-dal hwnnw, neu fel arall bydd yn daladwy pan fyddant yn cael eu Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae uchafswm o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth a ellir cael ei dalu i briod neu bartner sifil sy'n goroesi pan mae eu Pensiwn y Wladwriaeth eu hunain ac unrhyw Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth wedi ei etifeddu yn cael eu cyfuno. Fodd bynnag, ni fydd ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn cael ei gynnwys pan fydd yr uchafswm taladwy i'ch priod neu bartner sifil sy'n goroesi yn cael ei weithio allan. Mae hyn yn golygu y byddant yn derbyn y swm wedi ei etifeddu'n llawn o'ch ychwanegiad (ac unrhyw ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth eu hunain) ni waeth beth os yw'r terfyn yn berthnasol.

Ni fydd eich priod neu bartner sifil yn gallu etifeddu eich ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth os:

- ydynt o dan oedran Bensiwn y Wladwriaeth o hyd pan rydych yn marw, ac maent yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil cyn iddynt gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth; neu
- mae eich priodas neu bartneriaeth sifil yn dechrau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 ac mae eich priod neu bartner sifil yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Gallwch gael gwybod mwy ynglŷn â'r rheolau etifeddu SERPS yma: [www.gov.uk/additional-state-pension/further-information](www.gov.uk/additional-state-pension/further-information)

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r newidiadau i'r rheolau ar etifeddu Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 yma: [www.gov.uk/state-pension-through-partner](www.gov.uk/state-pension-through-partner)

## Gwybodaeth bwysig ar gyfer Merched

Efallai bydd y cynllun o ddiddordeb arbennig i ferched, llawer o rai sydd efallai gydag ychydig, neu ddim, hawliad i Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

## Gwybodaeth bwysig ar gyfer Cyplau (yn cynnwys cyplau Hunangyflogedig)

Cyn belled eu bod yn bodloni'r rheolau ar gyfer y cynllun gall y ddau aelod o gwpl dalu cyfraniadau.

Os mai dim ond un o'r cwpl sy'n mynd i dalu y cyfraniadau, efallai byddent yn dymuno ystyried:

- Treth – priod/partner sifil y trethdalwr cyfradd uwch i wneud cyfraniadau yn lle'r trethdalwr cyfradd uwch;
- Oedran tebyg i'w gilydd.

## Gwybodaeth bwysig ar gyfer yr Hunangyflogedig

Mae'r cynllun yn galluogi pobl hunangyflogedig gyda chyfalaf, nad oedd eu cyfraniadau'n cyfrif am Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth, i ennill hawliad iddo.

## Cwsmeriaid yn Byw Dramor

Gall cwsmeriaid sy'n byw dramor ac yn derbyn Pensiwn y Wladwriaeth y Du hybu eu Pensiwn y Wladwriaeth gyda ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth.

Os ydynt yn byw mewn gwlad lle nad yw cynyddiadau costau byw yn cael eu talu ni fydd yr ychwanegiad at y swm yn cael ei dalu.

## Proses gwneud cais

I wneud cais ar gyfer y cynllun neu am fwy o wybodaeth, ymwelwch â

www.gov.uk/statepensiontopup neu ffoniwch ar 0300 200 1900. Mae taflen wybodaeth fer o'r cynllun ar gael ar www.gov.uk/government/publications/state-pension-top-up-booklet

## Cwestiynau a ofynnir yn aml

**Beth sy'n digwydd i fy ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth os ydwyf wedi gohirio fy Mhensiwn y Wladwriaeth?**

Gallwch wneud cyfraniadau ychwanegiad Pensiwn y Wladwriaeth os ydych wedi gohirio cymryd eich Pensiwn y Wladwriaeth. Byddwch yn crynhoi cynyddiadau tan i chi benderfynu cymryd eich Pensiwn y Wladwriaeth. Pan fyddwch yn penderfynu gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth, bydd unrhyw hawliad ychwanegiad Pensiwn y Wladwriaeth a chynyddiadau wedi eu crynhoi yn cael eu talu.

**A fyddaf yn gallu talu cyfraniadau Dosbarth 3 gwirfoddol o hyd?**

- Os ydych yn bodloni'r amodau cymhwyso ac o fewn y terfynau amser ar gyfer talu gallwch ddewis talu Dosbarth 3. Ni fydd yr ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn cymryd lle'r cyfraniadau Yswiriant Gwladol Gwirfoddol Dosbarth 3 presennol.
- Gellir talu cyfraniadau Dosbarth 3 i lenwi bylchau penodol mewn cofnod cyfraniad YG i wella Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth budd-daliadau profedigaeth yn unig.
- Os ydych yn gymwys o hyd i dalu cyfraniadau Dosbarth 3, rydym yn annog yn gryf eich bod yn cael gwybod am dalu'r rhain cyn gwneud cyfraniad ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth.
- Nid yw ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn iawn i bawb. Mae'n dibynnu ar eich cofnod cyfraniad eich hun ac amgylchiadau unigol, fel p'un ai os oes gennych hawl i Bensiwn y Wladwriaeth o gofnod cyfraniad eich priod neu bartner sifil.
- Os oes gennych ddiffyg yn eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, bydd talu cyfraniadau Dosbarth 3 yn debygol o fod yn fwy buddiol mewn rhan fwyaf o achosion. Os ydych wedyn gyda chymhwyster i Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth lawn, gallwch ddewis gwneud cyfraniad am ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth i roi hwb i'ch Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

- Mae gennych y dewis i wneud y ddau gyfraniad os dymunwch.

**Lle caf wybodaeth bellach ynglŷn â chyfraniadau Dosbarth 3?**

Gellir cael hyd i wybodaeth bellach ynglŷn ag ychwanegu at eich cofnod Yswiriant Gwladol yma www.hmrc.gov.uk/ni/volcontr/whentop-up.htm

**A fydd ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn mynd i fyny pob blwyddyn?**

Oni bai eich bod yn byw mewn gwlad lle nad yw cynyddiadau costau byw yn cael eu talu bydd yn codi pob blwyddyn yn awtomatig yn unol â'r Mynegrif Defnyddwyr.

**A fydd ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn drethadwy?**

Bydd – mae'n cyfrif fel incwm trethadwy.

**A fydd Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn cael effaith ar fy Nghredyd Pensiwn neu fudd-daliadau eraill?**

Bydd Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth yn cael effaith ar unrhyw fudd-daliadau'n berthnasol i incwm presennol ac yn y dyfodol yn cynnwys Credyd Pensiwn ac unrhyw Fuddyn cynnwys Credyd Pensiwn a Budd-dal Tai. Bydd unrhyw gynnydd mewn Pensiwn y Wladwriaeth yn cael ei gymryd i mewn yn llawn fel incwm ychwanegol ar gyfer y budd-daliadau hyn - mewn rhai amgylchiadau efallai na fyddwch yn well allan ar y cyfan os ydych yn cynyddu eich pensiwn.

**A yw'r cyfraddau ar gyfer y cyfraniad yr un fath p'un ai os ydwyf yn briod ai peidio?**

Ydynt, mae'r cyfraddau'r un fath ar gyfer pobl sengl priod/mewn partneriaeth sifil.

**A all fy mhriod/partner sifil a minnau wneud cyfraniadau gwirfoddol am ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth?**

- Gallwch. Mae ar gael i bobl ar sail unigol.
- Rydych yn gymwys i wneud ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth os ydych yn:
  - ddyn wedi ei eni cyn 6 Ebrill 1951;
  - ferch wedi ei geni cyn 6 Ebrill 1953;
  - gymwys am Bensiwn y Wladwriaeth y DU.

**Pam mae cyfraddau ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn amrywio ar oedran?**

Mae cyfraddau'r un fath ar gyfer dynion a merched ond byddant yn wahanol yn dibynnu ar oedran y person sy'n gwneud y cyfraniad. Mae'r cyfraddau'n cael eu cyfrifo ar ddisgwyliad einioes ar gyfartaledd ar gyfer pob oedran penodol a bydd yn seiliedig ar oedran y person ar yr amser maent yn gwneud y cyfraniad.

# Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth

**Mae ceisiadau ar gyfer ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth yn cau ar 5 Ebrill 2017**

Ychwanegiad at Bensiwn y Wladwriaeth Top Up

Eich Pensiwn. Eich Dyfodol.

| Oedran ar ddyddiad cyfraniad (mis Hydref 2015 i fis Ebrill 2017) pensiwn | Swm (£) ar gyfer pob uned ychwanegol o £1 yr wythnos |
|---|---|
| 62 (merched yn unig) | 956 |
| 63 (merched yn unig) | 934 |
| 64 (merched yn unig) | 913 |
| 65 | 890 |
| 66 | 871 |
| 67 | 847 |
| 68 | 827 |
| 69 | 801 |
| 70 | 779 |
| 71 | 761 |
| 72 | 738 |
| 73 | 719 |
| 74 | 694 |
| 75 | 674 |
| 76 | 646 |
| 77 | 625 |
| 78 | 596 |
| 79 | 574 |
| 80 | 544 |
| 81 | 514 |
| 82 | 484 |
| 83 | 454 |
| 84 | 424 |
| 85 | 394 |
| 86 | 366 |
| 87 | 339 |
| 88 | 314 |
| 89 | 291 |
| 90 | 270 |
| 91 | 251 |
| 92 | 232 |
| 93 | 216 |
| 94 | 200 |
| 95 | 185 |
| 96 | 172 |
| 97 | 159 |
| 98 | 148 |
| 99 | 137 |
| 100 | 127 |